Rhybudd o Gynnig a gyflwynodd y Cynghorwyr Graham Timms, Mabon ap Gwynfor a Joseph Welch i'w ystyried gan y Cyngor:

“Rydym yn wynebu Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol

Y consensws byd-eang yw bod newid yn yr hinsawdd yn achosi risg sylweddol i'n hiechyd, ein heconomi a'n hamgylchedd ac yn bygwth lles cenedlaethau'r dyfodol.

Mae tystiolaeth wyddonol yn dweud wrthym yn glir bod gennym lai nag 11 mlynedd i atal newid trychinebus yn yr hinsawdd. At hynny, eleni mae gennym y dystiolaeth gliriaf erioed fod colled bioamrywiaeth yn cynyddu a bod hyn yn bygwth systemau cynnal bywyd y blaned yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt.

Mae natur yn dirywio'n ddifrifol, mae ein bioamrywiaeth a'n priddoedd yn dirywio neu yn cael eu diraddio. Rydym yn cynnal ein bywydau ein hunain, tra'n lleihau gallu cenedlaethau'r dyfodol i gynnal eu bywydau hwy. Nid yw hyn yn etifeddiaeth dderbyniol i’w gadael i’n plant, ein hwyrion a’n wyresau.

Mae dyfodol y ddynoliaeth yn dibynnu ar arweinwyr dewr a mentrus heddiw i wneud y newidiadau angenrheidiol i sicrhau'r amgylchedd, ar gyfer ein dyfodol ni a dyfodol cenedlaethau sydd eto i ddod.

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn

- Datgan Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol ar unwaith.
- Ymrwymo i wneud yr awdurdod yn sero carbon net erbyn 2030 fan bellaf.
- Sefydlu grŵp tasg a gorffen i lunio cynllun clir o fewn 6 mis i gyflawni'r uchod, gan gynnwys ffyrdd o wella bioamrywiaeth yn Sir Ddinbych.
- Galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddarparu cymorth ac adnoddau i'n galluogi i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwella bioamrywiaeth.
- Gweithio gyda phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i helpu i ddatrys yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol hwn.”